# Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu 2023: Cymru

Ellen Wood, Oriane Nermond ac Emily Jones

Awst 2024

**Sefydliad Dysgu a Gwaith**
Noddwr: EMB Y Dywysoges Frenhinol | Prif Weithredwr: Stephen Evans
Cwmni cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr
Rhif Cofrestru 2603322 Rhif Elusen Gofrestredig 1002775
Swyddfa gofrestredig: 3rd Floor, Arnhem House, 31 Waterloo Way, Leicester, LE1 6LP

# Ynglŷn â’r Sefydliad Dysgu a Gwaith

Sefydliad polisi, ymchwil a datblygu sy’n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant yw’r Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Rydym yn ymchwilio i’r hyn sy’n gweithio, datblygu ffyrdd newydd o feddwl, a helpu i weithredu dulliau newydd. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn trawsnewid profiad pobl o ddysgu a gwaith. Mae’r hyn a wnawn o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a’r economi yn ehangach.

**Mynnwch wybodaeth. Cyfrannwch. Ymgysylltwch. Ymunwch i ddod yn gefnogwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith: www.learningandwork.org.uk/supporters**

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cenedlaethol

3rd Floor, Arnhem House, 31 Waterloo Way, Leicester, LE1 6LP

Rhif cofrestru cwmni 2603322 | Rhif cofrestru elusen 1002775

www.learningandwork.org.uk @LearnWorkUK @LearnWorkCymru (Cymru)

**Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, copïo na throsglwyddo’r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan amodau unrhyw drwydded sy’n caniatáu copïo cyfyngedig a roddwyd gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.**

# Cynnwys

Crynodeb ........................................................................................................................ 4
Cyflwyniad ........................................................................................................................ 7
Cyfranogiad oedolion mewn dysgu yng Nghymru ........................................................... 10
Bwriadau dysgu yn y dyfodol .......................................................................................... 17
Cymhelliant i ddysgu ....................................................................................................... 18
Darparu’r dysgu .............................................................................................................. 20
Rhwystrau rhag dysgu ..................................................................................................... 23
Dysgu i newid gyrfa ......................................................................................................... 28

# Crynodeb

Mae dysgu yn allweddol i fywyd, gwaith a chymdeithas. Gall helpu pobl i ddod o hyd i waith, brofi cynnydd yn eu gyrfa neu ei newid, cefnogi iechyd a llesiant, hyrwyddo integreiddio cymdeithasol a llawer mwy o fanteision eraill. Dim ond cynyddu mewn pwysigrwydd y bydd dysgu gydol oes wrth i boblogaeth y Deyrnas Gyfunol heneiddio, i bobl gael oes hwy yn y gwaith ac i'n heconomi a'n cymdeithas newid.

Ers 1996, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi bod yn cynnal yr Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu bron yn flynyddol. Mae'r arolwg yn cynnig trosolwg unigryw o lefel y cyfranogiad mewn dysgu gan oedolion, gyda manylion manwl am bwy sy'n cymryd rhan a phwy nad ydynt.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn mae'r arolwg yn dod o hyd i anghyfartaledd amlwg a pharhaol, gyda rhai grwpiau yn fwy tebygol o ddysgu yn oedolion nag eraill. Dynododd arolwg 2023 hefyd y gall y gwahaniaethau rhwng rhanbarthau daearyddol fod yn cynyddu. Gan fod polisïau a chyllido polisïau dysgu yn cael eu datganoli, mae'n bwysig deall patrymau cyfranogi yn well ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Gall gwahaniaethau daearyddol yng nghyfranogiad oedolion mewn dysgu gael eu hesbonio trwy wahaniaethau demograffig, mewn geiriau eraill, pwy sy'n byw yn y genedl neu ranbarth dan sylw. Ond gall ffactorau eraill, fel ymyraethau polisi hefyd arwain at y gwahaniaethau hyn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg ar gyfranogiad oedolion mewn dysgu yng Nghymru.

## Canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru

Yng Nghymru, dywedodd tua dau o bob pump o oedolion (41 y cant) eu bod wedi dysgu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd yn Lloegr. **Cymru sydd â'r gyfradd isaf o ran cyfranogiad mewn dysgu o holl genhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Gyfunol.** Ond, dim ond yn ystadegol arwyddocaol is na chwech o'r rhanbarthau eraill oedd y gyfran o ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar: Llundain Fwyaf (64 y cant), Gogledd Orllewin Lloegr (52 y cant), Dwyrain Canolbarth Lloegr (52 y cant), Gorllewin Canolbarth Lloegr (51 y cant) De Ddwyrain Lloegr (48 y cant) a De Orllewin Lloegr (48 y cant).

Gellir esbonio'r gyfradd gyfranogi is yng Nghymru yn rhannol oherwydd gwahaniaethau demograffig. Er enghraifft, yn y sampl ar gyfer yr arolwg roedd cyfran uwch o oedolion yn y dosbarthiadau graddfa gymdeithasol DE[1] yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Yn ychwanegol, roedd mwy o ymatebwyr yng Nghymru yn 50-74 oed nag yn y

[1] Mae dosbarthiad graddfa cymdeithasol DE yn cyfateb i oedolion mewn galwedigaethau llaw lled-grefftus a heb sgiliau; y di-waith a'r galwedigaethau ar y raddfa isaf a phobl anweithredol yn economaidd ac wedi ymddeol.

Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol. Mae’r arolwg yn canfod bod y ddwy nodwedd yma yn gysylltiedig â chyfranogiad is mewn dysgu.[2]

Yng Nghymru, ac fel y gwelwyd yn y Deyrnas Gyfunol gyfan, mae anghyfartaledd sylweddol rhwng grwpiau demograffig:

- Mae oedolion yn y dosbarthiad AB[3] ar y raddfa gymdeithasol yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu nag oedolion mewn dosbarthiadau cymdeithasol eraill.
- Mae oedolion iau yn llawer mwy tebygol o fynd i ddysgu nag oedolion hŷn.
- Hwyaf yn y byd y bydd unigolion yn parhau mewn addysg amser llawn, y mwyaf tebygol y byddant o ddysgu yn oedolyn.

Mae’r anghyfartaledd hwn yn eithaf tebyg mewn rhanbarthau eraill: y grwpiau demograffig sy’n llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu yng Nghymru sydd hefyd y rhai llai tebygol o ddysgu mewn rhanbarthau eraill. Ond, mae rhai gwahaniaethau:

- **Yng Nghymru, mae oedolion yn y dosbarthiad C2[4] ar y raddfa gymdeithasol yn llawer llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu nag oedolion mewn dosbarthiadau cymdeithasol eraill.**
- **Mae pobl yng Nghymru a adawodd addysg amser llawn yn 17 neu 18 oed hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu na gweddill y Deyrnas Gyfunol.**

Yng Nghymru mae cymhelliad oedolion dros ddysgu a’u dull o ddysgu yn debyg i’r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol: maent yn fwy tebygol o fod yn dysgu ar gyfer gwaith na hamdden; maent yn bennaf yn dysgu’n annibynnol neu trwy’r gwaith; ac mae’r rhan fwyaf yn gwneud o leiaf gyfran o’u dysgu ar-lein.

Yng Nghymru, dynododd tri o bob pump (61 y cant) o’r dysgwyr cyfredol neu ddiweddar o leiaf un her tra’r oeddent yn dysgu, mewn cymhariaeth â bron saith o bob deg (68 y cant) yn y Deyrnas Gyfunol. Roedd yr heriau a ddynodwyd gan ddysgwyr yng Nghymru yn gymharol debyg i’r rhai a ddynodwyd gan oedolion yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Ond, **roedd oedolion yng Nghymru yn llai tebygol yn arwyddocaol o ddynodi heriau sefyllfaol[5] tra’n dysgu (40 y cant) nag yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol (49 y cant).**

---

[2] Hall, S., Jones E., Evans, S. (2023) Adult Participation in Learning Survey 2023, Sefydliad Dysgu a Gwaith.

[3] Mae dosbarthiad AB ar y raddfa gymdeithasol yn cyfateb i oedolion mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd.
4 Mae dosbarthiad C2 ar y raddfa gymdeithasol yn cyfateb i alwedigaethau llaw crefftus.
[5] Heriau sefyllfaol yw’r rhai sy’n deillio o sefyllfa bersonol a theuluol oedolyn, gan gynnwys: cost/arian/methu ei fforddio; trefniadau gofal plant neu gyfrifoldebau gofal eraill; cludiant/rhy bell i deithio; gwaith/pwysau arall; diffyg offer digidol/band llydan ar gyfer dysgu ar-lein.

Yng Nghymru, fel y gwelwyd yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol roedd bron saith o bob deg (69 y cant) o oedolion yn dynodi o leiaf un rhwystr rhag dysgu. Roedd y rhwystrau hyn yn eithaf cyson â'r rhai yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Ond, **mae oedolion yng Nghymru yn arwyddocaol fwy tebygol o gofnodi salwch neu anabledd (14 y cant) fel rhwystr rhag dysgu na chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol (10 y cant).** Gallai hyn gael ei esbonio gan gyfran uwch o bobl yn cofnodi bod eu hiechyd yn wael neu yn wael iawn yng Nghymru nag yn Lloegr, a chyfran uwch nag unrhyw ranbarth arall.[6]

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am newid gyrfa. Byddai ychydig mwy na dau o bob pump (42 y cant) o'r ymatebwyr yn hoffi neu angen newid eu gyrfa/diwydiant/ galwedigaeth yn y flwyddyn neu ddwy nesaf. Y prif reswm a nodwyd oedd ennill mwy o arian, ac yna dymuniad i deimlo'n hapusach yn y gwaith, i gael gwaith mwy diddorol neu fod arnynt eisiau her newydd. Roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o gyfeirio at rwystrau anianol[7] oedd yn eu hatal rhag newid swydd neu yrfa, gan gynnwys diffyg hunanhyder ac ofn ymgeisio am swyddi. Yn fwyaf cyffredin, dywedodd ymatebwyr petaent am newid gyrfa, y byddent yn gweld dysgu neu hyfforddiant o help ac y byddent yn chwilio ar-lein i gael gwybodaeth a chyngor. Ond, **mae oedolion yng Nghymru yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael cyngor ar newid gyrfa na'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol (17 y cant) a saith o ranbarthau neu genhedloedd eraill, gan gynnwys Gogledd Iwerddon.** Amlyga hyn angen gwirioneddol i godi ymwybyddiaeth o ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i oedolion.

[6] Yng Nghymru, roedd cyfran uwch o bobl oedd yn anabl ac wedi eu cyfyngu yn fawr yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd (10 y cant) na chyfartaledd Lloegr (7.5 y cant) ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021. https://www.ons.gov.uk/visualisations/censushealthdisabilitycare/

[7] Mae rhwystrau anianol yn cyfeirio at agweddau, canfyddiadau a disgwyliadau oedolyn.

# Cyflwyniad

Mae dysgu yn allweddol i fywyd, gwaith a chymdeithas. Gall helpu pobl i ddod o hyd i waith, brofi cynnydd yn eu gyrfa neu ei newid, cefnogi iechyd a llesiant, hyrwyddo integreiddio cymdeithasol a llawer mwy o fanteision eraill. Dim ond cynyddu mewn pwysigrwydd y bydd dysgu gydol oes wrth i boblogaeth y Deyrnas Gyfunol heneiddio, i bobl gael oes hwy yn y gwaith ac i'n heconomi a'n cymdeithas newid.

Mae'r Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yn rhoi golwg unigryw ar faint o oedolion sy'n cymryd rhan mewn dysgu bob blwyddyn, y manteision y mae pobl yn eu gweld o ddysgu a'r rhesymau pam bod rhai oedolion yn dweud nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu. Mae'n gwneud hynny ar sail diffiniad eang o ddysgu, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i ddysgu, cyrsiau a chymwysterau ffurfiol.

Dengys arolwg 2023 fod bron un o bob dau o oedolion yn y Deyrnas Gyfunol wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf, y gyfradd uchaf ers i'r arolwg ddechrau yn 1996. Mae hyn yn parhau'r newid mawr mewn cyfranogiad mewn dysgu a welwyd ers y pandemig, a ddilynodd ddegawd o ostyngiad mewn cyllidebau addysg oedolion ar draws cenhedloedd y Deyrnas Gyfunol wrth i lymder daro gwasanaethau. Mae'r cynnydd mewn cyfranogiad ers y pandemig wedi cael ei yrru gan gynnydd mewn dysgu hunangyfeiriedig, gan gynnwys ar-lein. Mae hyn yn aml am resymau personol neu hamdden neu ddiddordeb cyffredinol. Yn amlwg mae hyn yn gadarnhaol, ond mae cyfleoedd eraill i ddysgu wedi mynd yn fwy cyfyngedig dros amser wrth i fuddsoddiad y llywodraeth leihau ac mae buddsoddiad cyflogwyr wedi bod yn statig ar y cyfan yng Nghymru ac wedi gostwng mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol.

Mae newyddion mwy cadarnhaol wrth i rai anghyfartaleddau leihau o ran cyfranogiad mewn dysgu rhwng grwpiau dros amser. Mae hyn yn cynnwys yn ôl oedran, sy'n bwysig o ystyried bod ein poblogaeth yn heneiddio. Er gwaethaf hynny, mae'r anghyfartaleddau hyn yn parhau yn glir a pharhaus ac, o ran gwahaniaethau rhanbarthol, gallant fod wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r twf yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn dysgu ers 2019 yn dangos diddordeb cynhenid mewn dysgu ymhlith oedolion. Ond, mae llai o gyfleoedd i ddysgu yn y gwaith neu gymryd rhan mewn dysgu ffurfiol neu gyrsiau yn golygu bod pobl yn wynebu cyfyngiadau o ran y mathau o ddysgu y gallant gymryd rhan ynddo. Mae gwerth a manteision i ddysgu yn ei holl ffurfiau.


Er mwyn cael mwy o oedolion i ymgysylltu â dysgu, mae angen i lunwyr polisïau, comisiynwyr a'r rhai sy'n gweithio i ddarparwyr dysgu edrych ar gymhelliant pobl i ddysgu. Y prif resymau y mae oedolion yn eu rhoi am beidio â chymryd rhan mewn dysgu yw cost, teimlo'n rhy hen, pwysau amser a hefyd peidio â bod eisiau / peidio â gweld y manteision. Mae hynny'n ein harwain at yr angen i lunio diwylliant o ddysgu a chynnig amrywiaeth o ddewisiadau dysgu hyblyg i bobl. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad arwyddocaol o fwriad trwy wneud dysgu gydol oes yn ddyletswydd statudol i'w chorff cyllido a rheoleiddio

newydd, Medr. Bydd angen i’r ymrwymiad hwn arwain at bolisi ystyrlon sy’n cefnogi hawl i ddysgu gydol oes.

## Dadansoddi cenhedloedd a rhanbarthau’r Deyrnas Gyfunol

Er bod y cynnydd mewn cyfranogiad mewn dysgu yn galonogol, mae gwahaniaethau amlwg rhwng y cenhedloedd a’r rhanbarthau yn y Deyrnas Gyfunol ac mae’r arolwg yn dynodi bod yr anghyfartaledd wedi bod yn cynyddu ers 2017.[8] Er enghraifft, tra bod mwy na thri o bob pump o oedolion yn Llundain Fwyaf wedi dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf, dim ond dau o bob pump o oedolion sy’n dweud eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. Yn ychwanegol, mae cyfraddau cyfranogiad hefyd yn is yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru nag y maent yn Lloegr.

**Ffigwr 1: Cyfranogiad oedolion mewn dysgu yn ôl rhanbarthau Lloegr a chenhedloedd y Deyrnas Gyfunol**




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu 2023.

Ond, mae anghyfartaledd pwysig hefyd o fewn rhanbarthau a chenhedloedd, gyda rhai grwpiau yn llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu nag eraill. Gyda mwy o amrywio polisïau a chyllido ar draws y Deyrnas Gyfunol, a datganoli i ardaloedd o Loegr mewn polisïau sgiliau a chyllid, mae’n bwysig deall patrymau cyfranogi yn well ar draws cenhedloedd a rhanbarthau’r Deyrnas Gyfunol. Gall hyn helpu i fod yn sail o ran ble i dargedu ymyraethau a chefnogaeth orau a ble y gallant gael yr effaith mwyaf.

[8] Hall, S., Jones E., Evans, S. (2023) Adult Participation in Learning Survey 2023, Sefydliad Dysgu a  Gwaith.

## Am yr Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu

Ers 1996, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi bod yn cynnal yr Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu bron yn flynyddol.[9] Mae'r arolwg yn cynnig trosolwg unigryw o lefel y cyfranogiad mewn dysgu gan oedolion, gyda manylion manwl am bwy sy'n cymryd rhan a phwy nad ydynt.

Mae'r arolwg yn fwriadol yn defnyddio ddiffiniad eang o ddysgu, gan gynnwys amrywiaeth eang o ddysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, ymhell tu hwnt i derfynau cyfleoedd addysgiadol a gynigir yn gyhoeddus i oedolion. Yn flynyddol, mae sampl gynrychioliadol o tua 5,000 o oedolion 17 oed a hŷn ar draws y Deyrnas Gyfunol yn cael y diffiniad canlynol o ddysgu a gofynnir iddynt pryd y gwnaethant gymryd rhan ddiwethaf, yn ogystal â pha mor debygol ydynt o gymryd rhan mewn dysgu yn ystod y tair blynedd nesaf:

*'Gall dysgu olygu ymarfer, astudio neu ddarllen am rywbeth. Gall hefyd olygu cael eich addysgu, cyfarwyddo neu hyfforddi. Mae hyn er mwyn i chi allu datblygu sgiliau, gwybodaeth, gallu neu ddealltwriaeth o rywbeth. Gall dysgu hefyd gael ei alw yn addysg neu hyfforddiant. Gallwch ei wneud yn gyson (bob dydd neu fis) neu gallwch ei wneud am gyfnod byr o amser. Gall fod yn amser llawn neu ran-amser, gartref, yn y gwaith, neu mewn lle arall fel coleg. Nid oes raid i ddysgu arwain at gymhwyster. Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw ddysgu yr ydych wedi ei wneud, boed wedi ei orffen neu beidio.'*

Fel y rhan fwyaf o'n harolygon dros y blynyddoedd diwethaf, mae arolwg 2023 yn archwilio pwy sy'n cymryd rhan mewn dysgu; cymhelliant a rhwystrau; sut y mae'r dysgu'n digwydd; a'r manteision a brofwyd o ganlyniad i ddysgu. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau am ddysgu i newid gyrfa.

Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, mae sampl arolwg 2023 yn cynnwys hwb rhanbarthol i gael isafswm o ran maint sampl ym mhob cenedl a rhanbarth yn y Deyrnas Gyfunol (600 i bob rhanbarth ar wahân i Ogledd Iwerddon, lle rhoddwyd hwb i'r sampl i 400 o ymatebwyr). Mae'r sampl yn cynnwys yr hwb yn cynnwys 9,506 o oedolion 17 oed a hŷn (8,906 wedi'i bwysoli). Cymerodd cyfanswm o 597 o oedolion yng Nghymru ran yn yr arolwg (422 wedi'i bwysoli).

Gwnaed y gwaith maes rhwng Awst a Medi 2023 gan gwmni ymchwil marchnad trwy eu harolwg omnibws ar-lein i'r Deyrnas Gyfunol. Mae'r sampl wedi ei phwysoli i roi set ddata sy'n gynrychioliadol o'r Deyrnas Gyfunol (h.y. nid yw wedi ei bwysoli i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru).

Er mwyn cael gwybod rhagor am gyfres yr arolwg ac archwilio data tueddiadau trwy ein siartiau rhyngweithiol, ewch i www.learningandwork.org.uk.

[9] Cynhaliwyd arolygon yn flynyddol ers 1996 heblaw am dair blynedd: 1997, 1998 a 2016.


# Cyfranogiad oedolion mewn dysgu yng Nghymru.

Mae cyfranogiad mewn dysgu yn ystadegol is yng Nghymru mewn cymhariaeth â'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol. Nododd ychydig dros ddau o bob pump (41 y cant) o oedolion yng Nghymru eu bod yn dysgu ar hyn o bryd neu eu bod wedi dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf, mewn cymhariaeth â 49 y cant yn y Deyrnas Gyfunol.

Dywedodd ychydig dan un o bob pedwar (23 y cant) o oedolion yng Nghymru eu bod yn dysgu ar hyn o bryd, gydag un o bob pump arall (19 y cant) yn dweud eu bod wedi dysgu rhywfaint yn ystod y tair blynedd ddiwethaf (Ffigwr 2). Dywedodd bron dri o bob deg o oedolion (29 y cant) nad ydynt wedi dysgu o gwbl ers addysg amser llawn, tra bod ychydig dros un o bob pedwar (27 y cant) yn dweud eu bod wedi bod yn dysgu dros dair blynedd yn ôl.

Mae oedolion yng Nghymru yn arwyddocaol yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi dysgu rhywfaint ond dros dair blynedd yn ôl (27 y cant), na chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol (23 y cant). Yn ychwanegol, mae oedolion yng Nghymru yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud nad ydynt wedi dysgu o gwbl ers addysg amser llawn (29 y cant), na chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol (24 y cant).

**Ffigwr 2: Cyfranogiad cyffredinol mewn dysgu yng Nghymru**





Sail: Ymatebwyr Cymru. Sail wedi ei bwysoli: = 422; sail heb ei bwysoli = 597.

Wrth gymharu lefelau cyfranogiad mewn dysgu ar draws y Deyrnas Gyfunol yn 2023, mae'r arolwg yn dangos fod y gyfradd cyfranogiad yng Nghymru yn hafal ag un yr Alban (41 y cant) ac yn is na'r cyfartaledd yn Lloegr (51 y cant) ac yng Ngogledd Iwerddon (46 y cant) (Ffigwr 3).

**Mae gan Gymru'r gyfradd cyfranogiad mewn dysgu gyfartal isaf o holl ranbarthau a chenhedloedd eraill y Deyrnas Gyfunol.** Ond, dim ond yn ystadegol arwyddocaol is na chwech o'r rhanbarthau eraill oedd y gyfran o ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar: Llundain

Fwyaf (64 y cant), Gogledd Orllewin Lloegr (52 y cant), Dwyrain Canolbarth Lloegr (52 y cant), Gorllewin Canolbarth Lloegr (51 y cant) De Ddwyrain Lloegr (48 y cant) a De Orllewin Lloegr (48 y cant). Gall y newidiadau hyn gael eu hesbonio'n rhannol gan ffactorau cyfansoddol – pwy sy'n byw yn y genedl hon neu'r rhanbarth hwn – gan fod rhai grwpiau demograffig yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu nag eraill.

**Ffigwr 3: Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl rhanbarth a chenedl**





Sail: pob ymatebwr. Cyfanswm y sail wedi ei bwysoli = 8,906, Gogledd Ddwyrain Lloegr = 359, Gogledd Orllewin Lloegr = 975, Swydd Efrog a'r Humber = 730, Dwyrain Canolbarth Lloegr = 651, Gorllewin Canolbarth Lloegr = 782, Dwyrain Lloegr = 832, Llundain Fwyaf = 1,173, De Ddwyrain Lloegr = 1,216, De Orllewin Lloegr = 772, Lloegr = 7,491, Gogledd Iwerddon = 249, Yr Alban = 744, Cymru = 422. Cyfanswm y sail heb ei bwysoli = 9,506, Gogledd Ddwyrain Lloegr = 598, Gogledd Orllewin Lloegr = 1,045, Swydd Efrog a'r Humber = 786, Dwyrain Canolbarth Lloegr = 709, Gorllewin Canolbarth Lloegr = 834, Dwyrain Lloegr = 814, Llundain Fwyaf = 1,328, De Ddwyrain Lloegr = 1,083, De Orllewin Lloegr = 711, Lloegr = 7,908, Gogledd Iwerddon = 401, Yr Alban = 600, Cymru = 597.

Yn y 27 mlynedd o hanes yr arolwg, mae'r gyfradd gyfranogi yng Nghymru wedi bod yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol mewn 11 mlynedd (Ffigwr 4).[10] Ond, mae angen i'r newidiadau o flwyddyn i flwyddyn gael eu dehongli yn ofalus gan fod anwadalrwydd yr amcangyfrifon yn rhannol oherwydd maint llai'r sampl ar lefel ranbarthol.

[10] Sylwer bod data ar gael ar gyfer 23 o 27 o flynyddoedd. Ni chynhaliwyd yr arolwg yn 1996, 1997 na 2016. Cynhaliwyd yr arolwg yn 2020 gan ddefnyddio methodoleg wahanol ac felly ni ellir ei gymharu.

**Ffigwr 4: Cyfraddau cyfranogiad dros amser yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**




Sail: pob ymatebwr i bob arolwg. Sail wedi ei bwysoli ar gyfer 2023 = 8,906, heb ei bwysoli ar gyfer 2023 = 9,506.


## Manylion demograffig

### Oedran

Mae arolwg y Deyrnas Gyfunol yn gyson yn dangos bod cyfranogiad mewn dysgu yn lleihau wrth fynd yn hŷn. Yng Nghymru, mae oedolion 25-49 yn arwyddocaol o fwy tebygol o ddweud eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar nag oedolion hŷn 50-74 (Ffigwr 5). Dywedodd ychydig dros hanner (55 y cant) o oedolion 25-49 eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar, mewn cymhariaeth â thri o bob deg o oedolion 50-74 oed (30 y cant).

Roedd y cyfranogiad mewn dysgu yn ôl oedran yng Nghymru yn debyg i weddill y Deyrnas Gyfunol.

**Ffigwr 5: Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl oedran yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**




Sail: Ymatebwyr Cymru. Cyfanswm sail wedi ei bwysoli = 422, 25-49 = 145, 50-74 = 133. Cyfanswm sail heb ei bwysoli = 597, 25-49 = 180, 50-74 = 170. Ymatebwyr y Deyrnas Gyfunol. Cyfanswm y sail wedi ei bwysoli = 8125, 25-49 = 3556, 50-74 = 3586. Cyfanswm sail heb ei bwysoli = 8909, 25-49 = 4038, 50-74 = 3586.

## Graddfa gymdeithasol


Mae'r Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yn gyson yn dangos bod graddfa gymdeithasol[11] yn ddull allweddol o ragweld cyfranogiad mewn dysgu. Yng Nghymru, mae oedolion yn y dosbarthiad graddfa gymdeithasol AB yn arwyddocaol o fwy tebygol o ddweud eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar mewn cymhariaeth â C2 a DE (Ffigwr 6). Dywedodd dros hanner yr oedolion (55 y cant) yn y dosbarthiad graddfa gymdeithasol AB eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar, mewn cymhariaeth â 45 y cant yn y dosbarthiad C1 a 34 y cant yn y dosbarthiad C2. Ymatebwyr yn y dosbarthiad DE oedd leiaf tebygol o ddweud eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar (32 y cant). Roedd dosbarthiad cymdeithasol DE hefyd yn arwyddocaol o lai tebygol o gyfranogi mewn dysgu mewn cymhariaeth â dosbarthiadau cymdeithasol C1 ac AB.

Mae'r cyfraddau cyfranogiad yn ôl dosbarthiad graddfa gymdeithasol yn eithaf tebyg i'r cyfraddau yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru) i'r rhai yn y dosbarthiad AB, C1 a DE. Ond, **mae'r gyfradd cyfranogiad i oedolion yn y dosbarthiad C2 yn arwyddocaol is yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol (55 y cant).**

---

[11] Graddfa Gymdeithasol: AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd. C1: Galwedigaethau goruchwylio, clerigol a rheoli is, gweinyddol a phroffesiynol. C2: Galwedigaethau llaw crefftus. DE: Galwedigaethau llaw lled-grefftus a heb sgiliau; y di-waith a'r galwedigaethau ar y raddfa isaf a phobl anweithredol yn economaidd ac wedi ymddeol.

**Ffigwr 6: Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl dosbarthiad graddfa gymdeithasol yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**




Sail: Ymatebwyr Cymru. Cyfanswm sail wedi ei bwysoli = 422, AB = 106, C1 = 110, C2 = 64, DE = 142. Cyfanswm sail heb ei bwysoli = 597, AB = 150, C1 = 155, C2 = 92, DE = 200. Sail: Ymatebwyr y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Cyfanswm sail wedi ei bwysoli = 8125, AB = 2632, C1 = 1923, C2 = 1442, DE = 2497. Cyfanswm sail heb ei bwysoli = 8909, AB = 2753, C1 = 2025, C2 = 1531, DE = 2600.

### Oedran yn gorffen addysg amser llawn


Mae'r arolwg yn defnyddio'r oedran y gwnaeth rhywun adael addysg amser llawn yn lle'r lefel uchaf o gymhwyster. Dengys arolwg y Deyrnas Gyfunol, hwyaf yn y byd y bydd unigolion yn parhau mewn addysg amser llawn, y mwyaf tebygol y byddant o ddysgu yn oedolyn. Yng Nghymru mae oedolion a adawodd addysg amser llawn yn 16 oed neu iau yn llai tebygol o ddysgu fel oedolyn na grwpiau eraill (Ffigwr 7). Tri o bob deg o oedolion (30 y cant) a adawodd addysg yn 16 oed neu iau sydd yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar. Mae'r ffigwr hwn yn cynyddu ychydig i'r rhai a arhosodd mewn addysg hyd at 17-18 oed i ychydig dan ddau ym mhob pump o oedolion (36 y cant). Mae'r gyfradd gyfranogi yn cynyddu'n raddol i bobl a adawodd addysg yn 19 oed neu hŷn (52 y cant).

Yng Nghymru, mae'r cyfraddau cyfranogiad yn eithaf tebyg i'r cyfraddau ar gyfer y Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol i bobl a adawodd addysg amser llawn yn 16 oed ac iau. Ond, **mae'r gyfradd yn arwyddocaol is i'r rhai a adawodd addysg yn 17 i 18 oed, gyda 36 y cant o oedolion yn y grŵp hwn yng Nghymru yn dweud eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar mewn cymhariaeth â 46 y cant yn y Deyrnas Gyfunol**.

Mae'r bwlch cyfranogiad rhwng oedolion a adawodd addysg amser llawn yn 16 oed neu iau a'r rhai a adawodd yn 21 oed neu hŷn yn is yng Nghymru nag mewn cenhedloedd a

rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'r bwlch mewn cyfranogiad mewn dysgu rhwng oedolion a adawodd addysg amser llawn yn 16 oed a'r rhai a adawodd yn 19 oed neu hŷn yn 28 pwynt canran yn y Deyrnas Gyfunol. Yng Nghymru mae'r bwlch yn hafal â 22 pwynt canran, oherwydd bod pobl sydd wedi gadael addysg amser llawn yn hwyrach yn llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu yng Nghymru.

**Ffigwr 7: Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl oedran cwblhau addysg amser llawn yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**




Sail: Ymatebwyr Cymru. Cyfanswm sail wedi ei bwysoli = 403, 16 neu iau = 142, 17-18 = 100, 19-20 = 36, 21 oed neu hŷn = 125. Cyfanswm sail heb ei bwysoli = 572, 16 neu iau = 199, 17-18 = 142, 19-20 = 53, 21 oed neu hŷn = 178. Sail: Ymatebwyr y Deyrnas Gyfunol. Cyfanswm sail wedi ei bwysoli = 8040, 16 neu iau = 2483, 17-18 = 1919, 19-20 = 959, 21 oed neu hŷn = 2679. Cyfanswm sail heb ei bwysoli = 8622, 16 neu iau = 2602, 17-18 = 2056, 19-20 = 1041, 21 oed neu hŷn = 2923.

## Rhyw

Yng Nghymru, mae menywod (61 y cant) yn fwy tebygol na dynion (38 y cant) o ddweud eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar. Ond nid yw'r gwahaniaethau rhwng y ddwy gyfran yn ystadegol arwyddocaol o wahanol. Mae'r cyfraddau yn wahanol i'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol, lle mae dynion yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dysgu (51 y cant), a menywod yn llai tebygol o ddweud eu bod yn dysgu (47 y cant).


## Statws gwaith

Mae'r arolwg yn dangos bod statws gwaith yn rhagfynegydd allweddol i gyfranogiad mewn dysgu, gyda bod yn nes at y farchnad lafur yn cael ei gysylltu â chyfraddau cyfranogiad uwch. Oherwydd mai bach oedd maint y sampl, dim ond dau statws gwaith sydd wedi eu cynnwys yn nadansoddiad Cymru: gweithio amser llawn a gweithio rhan-amser (Ffigwr 8).

Mae oedolion sy'n gweithio rhan-amser yn llai tebygol o ddweud eu bod yn dysgu ar hyn o bryd neu wedi gwneud hynny yn y tair blynedd diwethaf (50 y cant), mewn cymhariaeth â'r rhai sy'n gweithio amser llawn (60 y cant).

Mae'r cyfrannau hyn yn eithaf tebyg i weddill y Deyrnas Gyfunol.

**Ffigwr 8: Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl statws gwaith yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**




Sail: Ymatebwyr Cymru. Cyfanswm sail wedi ei bwysoli: = 422; Amser llawn = 138, Rhan-amser = 60. Cyfanswm sail heb ei bwysoli: = 587; Amser llawn = 204, Rhan-amser = 88. Sail: Ymatebwyr y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Cyfanswm sail wedi ei bwysoli: = 8125; Amser llawn = 3346, Rhan-amser = 1195. Cyfanswm sail heb ei bwysoli: = 8672; Amser llawn = 3684, Rhan-amser = 1303. Sylwer: Ni ddangosir ymatebwyr â statws gwaith arall yn y siart hwn oherwydd bod maint y sampl yng Nghymru yn fach.


# Bwriadau dysgu yn y dyfodol

Yn ogystal â phatrymau a phrofiadau o ddysgu cyfredol/diweddar, mae'r arolwg yn casglu bwriadau i ddysgu yn y dyfodol. Gofynnwyd i ymatebwyr am y tebygolrwydd y byddent yn cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd nesaf.

Yng Nghymru, nododd dau o bob pump (42 y cant) o oedolion eu bod naill ai'n debygol iawn neu'n debygol o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf (Ffigwr 9). Ond mae statws dysgu cyfredol oedolion yn cael dylanwad mawr ar eu bwriad i ddysgu. Mae dysgwyr cyfredol a diweddar yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud eu bod yn debygol o ddysgu yn y dyfodol nag oedolion nad ydynt wedi ymwneud â dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf. Dywedodd ychydig dan bedwar o bob pump (78 y cant) o ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar eu bod yn debygol neu'n debygol iawn o ddysgu yn y dyfodol, mewn cymhariaeth ag un ymhob pump (22 y cant) o oedolion nad ydynt wedi ymwneud â dysgu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Mae'r cyfrannau hyn yn eithaf tebyg i'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol: Dywedodd 78 y cant o'r dysgwyr cyfredol neu ddiweddar eu bod yn debygol o ddysgu yn y dyfodol, mewn cymhariaeth â dim ond 17 y cant o oedolion nad ydynt wedi ymwneud â dysgu yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Ffigwr 9: Tebygolrwydd o ddysgu yn y dyfodol yn ôl statws dysgu cyfredol yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**





Sail: Ymatebwyr Cymru. Tynnwyd ymatebion 'Ddim yn gwybod'. Sail wedi ei bwysoli = 377, Dysgwr cyfredol neu ddiweddar = 162, Ddim yn ddysgwr cyfredol na diweddar = 215 Sail heb ei bwysoli: = 597, Dysgwr cyfredol neu ddiweddar = 417, Ddim yn ddysgwr cyfredol na diweddar = 179. Sail: Ymatebwyr y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 8529, Dysgwr cyfredol neu ddiweddar = 4234, Ddim yn ddysgwr cyfredol na diweddar = 3984. Sail heb ei bwysoli = 8909, Dysgwr cyfredol neu ddiweddar = 4525, Ddim yn ddysgwr cyfredol na diweddar = 4384.

# Cymhelliant i ddysgu

Gofynnwyd i ymatebwyr oedd wedi ymwneud â dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf nodi a wnaethant ddechrau'r prif faes dysgu ar gyfer eu gwaith neu am resymau cysylltiedig â gyrfa. Yng Nghymru, dywedodd bron dri o bob pump o oedolion (57 y cant) eu bod wedi dechrau dysgu am resymau yn gysylltiedig â'r gwaith neu eu gyrfa, tra bod ychydig dros ddau o bob pump (43 y cant) wedi dweud eu bod wedi dechrau dysgu oherwydd hamdden neu ddiddordebau personol (Ffigwr 10).

Mae'r cyfrannau hyn yn eithaf tebyg i weddill y Deyrnas Gyfunol: Dywedodd 56 y cant o ymatebwyr yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol eu bod wedi dechrau dysgu ar gyfer rhesymau yn gysylltiedig â gwaith neu yrfa mewn cymhariaeth â 40 y cant a ddywedodd eu bod wedi ei wneud oherwydd hamdden neu ddiddordeb personol.

**Ffigwr 10: Cymhelliant i ddysgu yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol**




Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 175; sail heb ei bwysoli = 235. Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 4221, sail heb ei bwysoli = 4525.

# Darparu'r dysgu

Gofynnwyd i oedolion a nododd eu bod yn dysgu yn gyfredol neu wedi gwneud hynny yn y tair blynedd ddiwethaf sut y gwnaethant neu sut y maent yn gwneud y prif ddysgu. Yng Nghymru, dywedodd dros draean (37 y cant) o ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar eu bod wedi dysgu yn annibynnol ar eu pennau eu hunain (Ffigwr 11).


Cofnodwyd dysgu'n gysylltiedig â'r gwaith yn aml hefyd, gydag un o bob pump o oedolion yn dysgu trwy gwrs hyfforddi yn y gwaith (20 y cant), 16 y cant yn dysgu yn eu gwaith ac 11 y cant yn dysgu trwy gwrs hyfforddi allanol a drefnwyd gan eu cyflogwyr. Dim ond tri y cant a gofnododd eu bod wedi dilyn prentisiaeth.

Y trydydd fath o ddarpariaeth a gofnodwyd yn fwyaf cyffredin oedd cwrs gyda sefydliad addysg uwch prifysgol (17 y cant). Dywedodd ychydig dan un o bob deg o ddysgwyr (8 y cant) eu bod wedi gwneud hyn trwy goleg addysg bellach.

Roedd y ddarpariaeth arall a gofnodwyd gan ddysgwyr yn cynnwys dysgu trwy gyfleusterau cymunedol (8 y cant), sefydliad gwirfoddol (6 y cant), canolfan addysg oedolion leol (6 y cant), ysgol leol (3 y cant), neu glwb hamdden neu iechyd (1 y cant).

Er bod y cyfrannau'n debyg i'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o ddysgu'n annibynnol ar eu pennau eu hunain nag yng Ngogledd Orllewin Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Llundain Fwyaf.

**Ffigwr 11: Lleoliad y dysgu yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol**





Sail: Yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 175; sail heb ei bwysoli = 253. Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 4221, sail heb ei bwysoli = 4525. *sefydliad addysg uwch/y Brifysgol Agored **Coleg Trydyddol/6ed dosbarth ***fel llyfrgell, amgueddfa, man addoli, siop lyfrau ac yn y blaen.

Er mwyn helpu o ran cymharu, gellid grwpio'r dulliau cyflwyno hyn yn bedwar categori: yn annibynnol; sefydliad addysg ffurfiol; cwrs hyfforddi'n gysylltiedig â'r gwaith a sefydliad cymunedol neu wirfoddol.[12] Yng Nghymru, dywedodd dau o bob pump o'r cyfranogwyr eu bod wedi dysgu'n annibynnol (42 y cant) neu ar gwrs dysgu'n gysylltiedig â'r gwaith (38 y cant), dywedodd un o bob tri (30 y cant) eu bod wedi dysgu trwy sefydliad ffurfiol a dywedodd 13 y cant eu bod wedi dysgu trwy sefydliad cymunedol neu wirfoddol (Ffigwr 12).

Mae'r dulliau cyflawni yn eithaf tebyg i weddill y Deyrnas Gyfunol, gyda 41 y cant o'r dysgwyr cyfredol neu ddiweddar yn y cenhedloedd neu ranbarthau eraill naill ai'n dysgu'n annibynnol neu trwy gwrs yn gysylltiedig â'r gwaith, 35 y cant yn ei wneud trwy sefydliad addysg ffurfiol ac 18 y cant trwy sefydliad cymunedol neu wirfoddol.

**Ffigwr 12: Lleoliadau'r dysgu wedi eu grwpio yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**




Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli = 175 Sail heb ei bwysoli = 253. Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 4221, sail heb ei bwysoli = 4525.

[12] Dosbarthwyd y dewisiadau ymateb fel â ganlyn:


- Cysylltiedig â'r gwaith, gan gynnwys: Yn y swydd; Ar gwrs hyfforddi yn y gwaith; Ar gwrs hyfforddi allanol a drefnwyd gan fy nghyflogwr; Ar brentisiaeth
- Yn annibynnol, gan gynnwys: Yn annibynnol ar fy mhen fy hun; Yn annibynnol gydag eraill
- Sefydliad addysg ffurfiol, gan gynnwys: Trwy brifysgol/sefydliad addysg uwch/y Brifysgol Agored; Trwy goleg addysg bellach/trydyddol/6ed dosbarth; Trwy ganolfan neu ddosbarth addysg oedolion yn lleol; Trwy ysgol leol
- Sefydliad cymunedol neu wirfoddol, gan gynnwys: Trwy sefydliad gwirfoddol; Trwy gyfleusterau cymunedol lleol e.e. llyfrgell, amgueddfa, man addoli, siop lyfrau ac ati; Trwy glwb hamdden neu iechyd.

### Ar-lein ac wyneb yn wyneb

Gofynnwyd i oedolion a nododd eu bod yn dysgu yn gyfredol neu wedi gwneud hynny yn y tair blynedd ddiwethaf a oedd eu prif ddysgu wedi digwydd ar-lein neu wyneb yn wyneb. Yng Nghymru dywedodd dros hanner (55 y cant) y dysgwyr cyfredol eu bod wedi cwblhau o leiaf un o'u dysgu ar-lein (Ffigwr 13). Dywedodd bron un o bob tri (31 y cant) eu bod wedi bod yn dysgu wyneb yn wyneb a dywedodd mwy nag un o bob deg (13 y cant) bod eu dysgu wedi cynnwys cymysgedd o ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Mae'r cyfrannau yn debyg i'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol: Dywedodd 50 y cant o ddysgwyr yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol eu bod wedi dysgu ar-lein a dywedodd 34 y cant eu bod wedi gwneud hynny wyneb yn wyneb.

**Ffigwr 13: Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl modd darparu yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**




Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 175; sail heb ei bwysoli = 253.
Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 4221, sail heb ei bwysoli = 4525.

### Ffioedd


Yng Nghymru, dywedodd bron ddwy ran o dair (65 y cant) o ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar bod ffi yn gysylltiedig â'u prif ddysgu (Ffigwr 14). Yn fwyaf cyffredin, cofnododd dysgwyr bod eu ffi wedi ei thalu gan eu cyflogwr (37 y cant). Dywedodd un o bob pump o ddysgwyr (20 y cant) eu bod wedi talu eu ffi yn uniongyrchol. Dywedodd llai nag un o bob

deg o ddysgwyr eu bod wedi talu eu ffi gyda chyllid arall gan y llywodraeth (7 y cant), trwy gymryd benthyciad (5 y cant), gyda chefnogaeth gan eu ffrind neu aelod o'r teulu (4 y cant), gyda help gan sefydliad (3 y cant). Cofnodwyd cefnogaeth gan elusennau neu sefydliad anllywodraethol gan ddim ond dau y cant o ddysgwyr.

Roedd y cyfrannau o bobl a gofnododd eu bod wedi talu am eu dysgu yng Nghymru yn debyg i weddill y Deyrnas Gyfunol (69 y cant).

Er bod y cyfrannau o ddysgwyr yng Nghymru ychydig yn wahanol i rai o'r ffyrdd y gwnaeth cyfranogwyr gofnodi eu bod wedi talu am eu dysgu, nid yw'r mwyafrif o'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol mewn cymhariaeth â gweddill y Deyrnas Gyfunol. **Er nad ydynt yn arwyddocaol o wahanol, mae'n drawiadol bod llai o ddysgwyr yng Nghymru wedi talu am eu cyrsiau trwy fenthyciadau, a all adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y dirwedd bolisi rhwng Cymru a Lloegr**.

**Ffigwr 14: Sut y telir am ddysgu yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol**




Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 175; sail heb ei bwysoli = 253. Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 4221, sail heb ei bwysoli = 4525.

# Rhwystrau rhag dysgu

Bob blwyddyn gofynnir i ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar nodi unrhyw heriau y maent wedi eu hwynebu wrth ddysgu, a gofynnir i oedolion nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu am o leiaf dair blynedd i ddynodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny. Mae'r rhain yn rhoi dealltwriaeth o'r mathau o rwystrau y gall polisïau ac ymarfer geisio cael gwared arnynt i sicrhau bod mwy o oedolion ac oedolion gwahanol yn gallu mynd ati i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

## Heriau y mae dysgwyr cyfredol neu ddiweddar wedi eu profi


Yng Nghymru, dynododd tri o bob pump (61 y cant) o'r dysgwyr cyfredol neu ddiweddar o leiaf un her tra'r oeddent yn dysgu, mewn cymhariaeth â bron saith o bob deg (68 y cant) yn y Deyrnas Gyfunol.

Yn fwyaf cyffredin, dynododd dysgwyr cyfredol neu ddiweddar eu gwaith a phwysau arall ar amser fel her, gydag un o bob pump (20 y cant) o oedolion yng Nghymru yn dynodi'r rhain fel her (Ffigwr 15).

Dynododd ymatebwyr heriau yn gysylltiedig â'u sefyllfa, gan gynnwys cost dysgu (16 y cant), salwch neu anabledd (8 y cant), trefniadau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill (8 y cant) neu drafnidiaeth (7 y cant). Mae'r heriau cyffredin eraill yn ymwneud ag agweddau neu amgyffrediad pobl o ddysgu, fel diffyg hyder i ddysgu (12 y cant), teimlo'n rhy hen (10 y cant) neu gael eu rhwystro gan y syniad o brofion/arholiadau (9 y cant). Dywedodd y cyfranogwyr hefyd eu bod yn profi rhwystrau digidol wrth ddysgu oherwydd diffyg sgiliau digidol neu hyder ar gyfer gweithio ar-lein (11 y cant) neu ddiffyg offer digidol (4 y cant).

Er bod dysgwyr yng Nghymru yn arwyddocaol llai tebygol o ddynodi heriau na'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol, roedd yr heriau a gofnodwyd yn eithaf tebyg i'r rhai a ddynodwyd gan ddysgwyr mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol.

**Ffigwr 15: Heriau a brofwyd wrth ddysgu yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol**




Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 175; sail heb ei bwysoli = 253.
Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 4221, sail heb ei bwysoli = 4525.

Gall y rhwystrau gael eu grwpio i'r rhai sydd yn:

- **Sefyllfaol,** deillio o sefyllfa bersonol a theuluol oedolyn, gan gynnwys: cost/arian/methu ei fforddio; Trefniadau Gofal plant neu gyfrifoldebau gofal eraill; Cludiant/rhy bell i deithio; Gwaith/pwysau arall; diffyg offer digidol/band llydan ar gyfer dysgu ar-lein.
- **Anianol,** yn cyfeirio at agweddau, canfyddiadau a disgwyliadau oedolion, gan gynnwys: Rwy'n teimlo fy mod yn rhy hen; Salwch neu anabledd; Mae profion neu arholiadau yn fy rhwystro; Rwy'n cael anhawster i ddarllen, ysgrifennu neu gyda rhifau; Nid wyf yn teimlo'n ddigon hyderus; diffyg sgiliau digidol/hyder i ddysgu ar-lein
- **Sefydliadol,** yn deillio o ddiffyg ymateb sefydliadau addysgol, gan gynnwys: Anawsterau neu broblemau gyda'r cwrs/dysgu neu'r tiwtor.

Yng Nghymru, dywedodd dau o bob pump o oedolion sy'n dysgu (40 y cant) eu bod wedi profi heriau sefyllfaol (Tabl 1). Dywedodd cyfran debyg (38 y cant) eu bod yn wynebu heriau anianol a dywedodd 10 y cant arall eu bod yn wynebu heriau sefydliadol. **Yng Nghymru mae oedolion yng Nghymru yn llai tebygol yn arwyddocaol o ddynodi eu bod yn profi heriau sefyllfaol nag yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol.** Mae'r cyfrannau ar gyfer yr heriau eraill wedi eu grwpio yn eithaf tebyg i weddill y Deyrnas Gyfunol (gweler Tabl 1).

**Tabl 1: Heriau wedi eu grwpio a brofwyd gan ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol**

| Grŵp | Cymru | Y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru) |
|---|---|---|
| Sefyllfaol | 40% | 49% |
| Anianol | 38% | 42% |
| Sefydliadol | 10% | 10% |
| Heb wynebu unrhyw heriau | 37% | 30% |

Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 175; sail heb ei bwysoli = 253. Sail: yr holl ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar yn y Deyrnas Gyfunol. Sail wedi ei bwysoli = 4396, sail heb ei bwysoli = 4778.

## Rhwystrau a wynebir gan bobl nad ydynt wedi ymwneud â dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf

Yng Nghymru, dynododd saith o bob deg (69 y cant) o oedolion a ddywedodd nad ydynt wedi ymwneud â dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf o leiaf un rhwystr i'w hatal rhag dysgu. Mae'r gyfran hon yn debyg i weddill y Deyrnas Gyfunol (71 y cant).

Y ddau brif rwystr a ddynodwyd gan yr oedolion nad ydynt wedi ymwneud â dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf oedd cost dysgu (26 y cant) a theimlo'n rhy hen i ddysgu (26 y cant) (Ffigwr 16).


Dynododd mwy nag un o bob deg o oedolion (14 y cant) anabledd neu salwch yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn dysgu. Roedd y rhwystrau eraill a gofnodwyd gan tua un o bob deg oedolyn yng Nghymru yn ymwneud ag amgyffrediad pobl gan gynnwys peidio â theimlo'n ddigon hyderus (12 y cant) neu fod profion ac arholiadau yn eu rhwystro (9 y cant).

Mae'r rhwystrau yr oedd pobl yng Nghymru yn eu hwynebu yn debyg i'r rhwystrau a brofwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol.

**Mae oedolion yng Nghymru yn arwyddocaol fwy tebygol o gofnodi salwch neu anabledd (14 y cant) fel rhwystr rhag dysgu na chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol (10 y cant).** Gallai hyn gael ei esbonio oherwydd iechyd cyffredinol poblogaeth Cymru, gyda chyfran uwch o bobl yn cofnodi bod eu hiechyd yn wael neu yn wael iawn yng Nghymru nag yn Lloegr, a chyfran uwch nag unrhyw genedl neu ranbarth arall.[13]

[13] Yng Nghymru, roedd cyfran uwch o bobl oedd yn anabl ac wedi eu cyfyngu yn fawr yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd (10 y cant) na chyfartaledd Lloegr (7.5 y cant) ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021. https://www.ons.gov.uk/visualisations/censushealthdisabilitycare/

**Ffigwr 16: Rhwystrau rhag dysgu yng Nghymru a’r Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru)**




Sail: ymatebwyr nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd diwethaf yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 235; sail heb ei bwysoli = 327. Sail: ymatebwyr nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd diwethaf yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru) Sail wedi ei bwysoli = 3964, sail heb ei bwysoli = 4071.

Gall y rhwystrau gael eu grwpio i’r rhai sydd yn:

- **Sefyllfaol**, gan gynnwys: Cost/arian/methu ei fforddio; Trefniadau gofal plant neu gyfrifoldebau gofal eraill; Gwaith/pwysau amser arall; Diffyg offer digidol/band llydan ar gyfer dysgu ar-lein; Nid yw fy amgylchedd gartref yn addas ar gyfer dysgu ar-lein; Cludiant/rhy bell i deithio
- **Anianol**, gan gynnwys: Nid wyf yn gwybod beth sydd ar gael a sut i gael gwybod beth sydd; Rwy’n teimlo fy mod yn rhy hen; Salwch neu anabledd; Nid wyf wedi cyrraedd i’w wneud; Mae profion neu arholiadau yn fy rhwystro; Rwy’n cael anhawster i ddarllen, ysgrifennu neu gyda rhifau; Nid wyf yn teimlo’n ddigon hyderus; Diffyg sgiliau digidol/hyder i ddysgu ar-lein; Profiadau negyddol o ddysgu yn y gorffennol.

Dywedodd dau o bob pump o oedolion (42 y cant) nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu yn ddiweddar bod rhwystrau sefyllfaol yn eu hatal rhag gwneud hynny. Dywedodd bron un o bob tri (31 y cant) nad oeddent am ymwneud â dysgu neu nad oedd dim yn eu hatal rhag gwneud hynny. Mae’r canfyddiadau hyn yn eithaf tebyg i’r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol (gweler Tabl 2).

**Tabl 2: Rhwystrau a wynebir wedi eu grwpio gan bobl nad ydynt wedi ymwneud â dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru)**

| Grŵp | Cymru | Y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru) |
|---|---|---|
| Sefyllfaol | 42% | 46% |
| Anianol | 49% | 51% |
| Heb wynebu unrhyw heriau | 31% | 29% |

Sail: ymatebwyr nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd diwethaf yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 235; sail heb ei bwysoli = 327. Sail: ymatebwyr nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd diwethaf yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru) Sail wedi ei bwysoli = 3964, sail heb ei bwysoli = 4071.

# Dysgu i newid gyrfa

Mae datblygiadau mewn technoleg, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial, ynghyd ag oes waith hwy yn golygu bod mwy o bobl angen newid swyddi a gyrfaoedd. Cafodd y pandemig coronofeirws hefyd effaith dwys ar y farchnad lafur, gyda chynnydd yn y nifer o bobl sydd yn economaidd anweithredol ac mae swyddi gwag ar lefelau nas gwelwyd o'r blaen.


Bydd llawer o weithwyr felly angen dysgu sgiliau newydd i yrfaoedd gwahanol i sicrhau eu bod yn gallu gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd o'u blaenau. Yn y cyd-destun hwn, gofynnodd arolwg eleni a ydynt yn bwriadu newid swydd neu yrfa yn y dyfodol agos. Roedd yr arolwg hefyd yn archwilio'r cymhelliant dros newid gyrfa, rhwystrau rhag newid gyrfa a pha gefnogaeth fyddai pobl yn ei weld o gymorth.

## Newid swydd neu yrfa

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr sy'n gweithio neu yn ddi-waith ac yn chwilio am waith a oeddent yn meddwl y gallai pobl fel nhw newid gyrfa neu newid yr alwedigaeth/diwydiant yr oeddent ynddynt. Yng Nghymru, cred tua saith o bob deg o oedolion (72 y cant) y gall pobl fel nhw newid gyrfa (Ffigwr 17). Dywedodd bron ddau o bob deg (18 y cant) nad ydynt yn meddwl y gall pobl fel nhw newid gyrfa a dywedodd un o bob deg (10 y cant) nad ydynt yn gwybod.

Mae hyn yn eithaf tebyg i'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol gyda 71 y cant o'r ymatebwyr yn credu bod pobl fel nhw yn gallu newid gyrfa, 16 y cant ddim yn credu hynny a 12 y cant ddim yn gwybod. Er bod oedolion yng Nghymru yn fwy tebygol yn ystadegol na Dwyrain Lloegr o gytuno y gall pobl newid eu gyrfa.

**Ffigwr 17: Ymatebwyr yng Nghymru sy'n credu y gall pobl fel nhw newid gyrfa**





Sail: ymatebwyr sy'n gyflogedig, di-waith ac yn chwilio am waith neu mewn addysg amser llawn yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 242; sail heb ei bwysoli = 356.

Yng Nghymru, mae ychydig mwy na dau o bob pump o oedolion (42 y cant) eisiau (30 y cant) neu angen (12 y cant) newid eu gyrfa/diwydiant/galwedigaeth yn y flwyddyn neu ddwy nesaf (Ffigwr 18). Dywedodd bron ddau o bob pump (45 y cant) nad ydynt angen nac eisiau newid gyrfa a dywedodd 14 y cant nad oeddent yn gwybod.

Mae’r ffigyrau hyn yn debyg i weddill y Deyrnas Gyfunol, gyda 33 y cant o oedolion a ddywedodd eu bod am newid gyrfa/diwydiant/galwedigaeth yn y flwyddyn neu ddwy nesaf, 13 y cant a ddywedodd bod arnynt angen hynny, 43 y cant a ddywedodd nad oeddent eisiau nac angen gwneud hynny a 12 y cant yn dweud nad oeddent yn gwybod. Yng Nghymru mae oedolion yn ystadegol fwy tebygol o ddweud nad ydynt angen newid gyrfa yn y flwyddyn neu ddwy nesaf nag oedolion yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Llundain Fwyaf.

Mae ymchwil ehangach yn dynodi bod tua chwech y cant o oedolion yn newid galwedigaeth neu sector bob blwyddyn.[14]

**Ffigwr 18: A yw oedolion am neu angen newid gyrfa yn y flwyddyn neu ddwy nesaf**




Sail: ymatebwyr sy’n gyflogedig, di-waith ac yn chwilio am waith neu mewn addysg amser llawn yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 242; sail heb ei bwysoli = 356. Sail ymatebwyr sy’n gyflogedig, di-waith ac yn chwilio am waith neu mewn addysg amser llawn yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 5724, sail heb ei bwysoli = 6233.

[14] Evans, S. a Vaid, L. (2023) All change: Understanding and supporting retraining and career change

## Cymhelliant i newid gyrfa


Gofynnwyd i ymatebwyr a ddynododd bod arnynt eisiau neu angen newid gyrfa yn y flwyddyn neu ddwy nesaf beth oedd y rheswm am y newid hwn (Ffigwr 19). Yng Nghymru, y prif reswm a nodwyd oedd ennill mwy o arian (53 y cant). Yna roedd eisiau her newydd (36 y cant).

Cofnododd yr ymatebwyr hefyd eu bod am deimlo'n hapusach yn y gwaith (35 y cant), cael swydd fyddai'n rhoi mwy o fwynhad neu yn fwy gwerth chweil (30 y cant), yn fwy diddorol (29 y cant), yn fwy hyblyg (25 y cant), yn gweddu'n well i'w sgiliau (24 y cant) neu'n fwy sefydlog (11 y cant).

Cofnododd un o bob deg o ymatebwyr (14 y cant) mai newid yn eu hamgylchiadau personol oedd y rheswm fod arnynt eisiau newid gyrfa. Dywedodd un o bob deg arall (11 y cant) eu bod yn poeni bod perygl y byddai eu swydd yn cael ei dileu.

Mae'r cymhelliant i newid gyrfa yng Nghymru yn eithaf tebyg i ranbarthau a chenhedloedd eraill y Deyrnas Gyfunol (Ffigwr 20). Er bod oedolion yng Nghymru yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud bod arnynt eisiau neu angen newid gyrfa i ennill mwy o arian na Gogledd Orllewin Lloegr a Llundain Fwyaf.

**Ffigwr 19: Rhesymau dros fod eisiau neu angen newid gyrfa yng Nghymru ac yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru)**




Sail: ymatebwyr sydd am newid swydd/gyrfa yn yr 1-2 flynedd nesaf yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 101; sail heb ei bwysoli = 149. Sail: ymatebwyr sydd am newid swydd/gyrfa yn yr 1-2 flynedd nesaf yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 2585, sail heb ei bwysoli = 2832.

## Rhwystrau rhag newid gyrfa

Yna gofynnwyd i ymatebwyr a ddynododd bod arnynt eisiau neu angen newid gyrfa beth oedd yn eu hatal rhag gwneud hyn (Ffigwr 20). Yng Nghymru, roedd y rhwystr y cyfeiriwyd ato amlaf yn ymwneud ag arian, gan gynnwys peidio â gallu fforddio costau hyfforddiant (26 y cant), methu fforddio ail hyfforddi (25 y cant) a/neu fethu fforddio toriad mewn cyflog (22 y cant).


Yng Nghymru roedd y rhwystrau anianol yn cynnwys diffyg hyder (25 y cant), ofn ymgeisio am swyddi/cyfweliadau swyddi (21 y cant), teimlo'n rhy hen (21 y cant), ddim eisiau dechrau gyrfa newydd (17 y cant) neu fod wedi gwneud yr un gwaith wastad (15 y cant).

Mae rhai rhwystrau yn ymwneud â diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd neu gyfarwyddyd, gyda bron un o bob pump (17 y cant) yn dynodi naill ai nad ydynt yn gwybod pa swydd neu yrfa y gallent eu gwneud neu nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael gwybodaeth a chyngor.

Dywed un o bob deg o'r ymatebwyr (11 y cant) sy'n dweud bod arnynt eisiau neu angen newid gyrfa nad oes dim yn eu hatal rhag gwneud hyn.

Mae'r rhwystrau rhag newid gyrfa a ddynodwyd gan ymatebwyr yng Nghymru yn eithaf tebyg i'r rhai a ddynodwyd yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol (gweler Ffigwr 20). Er bod rhai o'r ffigyrau ychydig yn wahanol, nid oes unrhyw un o'r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigwr 20: Rheswm dros beidio â newid gyrfa yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru)**





Sail: ymatebwyr sydd am newid swydd/gyrfa yn yr 1-2 flynedd nesaf yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 101; sail heb ei bwysoli = 149. Sail: ymatebwyr sydd am newid swydd/gyrfa yn yr 1-2 flynedd nesaf yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 2585, sail heb ei bwysoli = 2832.

## Datblygu sgiliau ar gyfer newid gyrfa

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddynododd bod arnynt eisiau neu angen newid gyrfa a oedd arnynt angen datblygu eu sgiliau er mwyn newid gyrfa neu'r diwydiant/alwedigaeth y maent ynddynt (Ffigwr 21).

Yng Nghymru, dywedodd dwy ran o dair o oedolion (66 y cant) bod arnynt angen datblygu eu sgiliau, tra bod 23 y cant wedi dweud nad oes arnynt angen ac 11 y cant wedi dweud nad ydynt yn gwybod. Mae’r ffigyrau hyn yn eithaf tebyg i weddill y Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol.

**Ffigwr 21: A oes arnoch angen datblygu eich sgiliau i newid gyrfa neu newid y diwydiant/galwedigaeth yr ydych yn gweithio ynddo/ynddi?**




Sail: ymatebwyr sydd am newid swydd/gyrfa yn yr 1-2 flynedd nesaf yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 101; sail heb ei bwysoli = 149. Sail: ymatebwyr sydd am newid swydd/gyrfa yn yr 1-2 flynedd nesaf yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 2585, sail heb ei bwysoli = 2832.

## Cefnogaeth i newid gyrfa


Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis, o restr o ddewisiadau, pa gefnogaeth y byddent yn ei gweld o gymorth petai arnynt eisiau/angen newid gyrfa (Ffigwr 22). Yng Nghymru, dynododd ymatebwyr yn fwyaf cyffredin y byddai arnynt angen cefnogaeth ariannol i newid gyrfa, gan gynnwys tuag at gostau dysgu/hyfforddi (31 y cant) neu tuag at gostau byw tra byddent yn dysgu/hyfforddi (26 y cant).

Dilynwyd hyn gan ymatebwyr yn nodi y byddent yn gweld cyngor yn ddefnyddiol – am ddysgu neu hyfforddi (30 y cant), cyngor ar eu sgiliau trosglwyddadwy (23 y cant), i ddewis y dysgu neu hyfforddiant cywir y mae arnynt ei angen i newid swydd/gyrfa (22 y cant), i ddewis y swydd/yrfa gywir iddynt hwy (22 y cant), neu anogaeth i’w helpu gael swydd (18 y cant). Dywedodd bron un o bob pump o ymatebwyr (18 y cant) y byddent yn hoffi cael anogaeth a chefnogaeth pan fyddent yn dechrau swydd am y tro cyntaf.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y gefnogaeth y gwnaeth ymatebwyr yng Nghymru ei ddynodi. Ond, roedd oedolion yng Nghymru yn ystadegol fwy tebygol o ddweud y byddent yn hoffi cymorth ariannol tuag at gostau byw tra byddent yn dysgu/hyfforddi na phobl yn Llundain Fwyaf.

Yn ychwanegol, dywedodd bron un rhan o bump (18 y cant) o oedolion yng Nghymru nad oeddent yn gwybod beth fyddai o gymorth, ac roedd hyn yn ystadegol uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Gyfunol. Dengys hyn yr angen i godi ymwybyddiaeth am gyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd hygyrch i oedolion, os oes arnynt eisiau neu angen newid gyrfa.

**Ffigwr 22: Beth fyddai o fwyaf o gymorth i newid gyrfa**




Sail: ymatebwyr sy'n gyflogedig, di-waith ac yn chwilio am waith neu mewn addysg amser llawn yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 242; sail heb ei bwysoli = 356. Sail ymatebwyr sy'n gyflogedig, di-waith ac yn chwilio am waith neu mewn addysg amser llawn yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 5724, sail heb ei bwysoli = 6233.

Gofynnwyd i ymatebwyr ble y byddent yn mynd i gael gwybodaeth a chyngor petaent yn dymuno newid gyrfa (Tabl 3). Yng Nghymru, dywedodd bron ddau o bob pump o ymatebwyr (38 y cant) y byddent yn defnyddio chwiliad cyffredinol ar-lein i ddod o hyd i wybodaeth a chyngor. Yna daeth ffrindiau, teulu a chydweithwyr (20 y cant). Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu'r angen am sicrhau bod gwybodaeth gredadwy y gellir ymddiried ynddi ar gael ac yn hawdd dod o hyd iddi ar-lein, yn ogystal â phwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol wrth ddarparu gwybodaeth.

Mae'r ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill yn cynnwys asiantaeth/ymgynghorydd recriwtio (15 y cant), sefydliad sector neu grefft proffesiynol (15 y cant), y cyfryngau cymdeithasol (14 y cant), darparwr addysg fel coleg neu brifysgol (13 y cant) neu Ganolfan Byd Gwaith (13 y cant). Dywedodd ychydig dros un o bob deg o oedolion yng Nghymru y byddent yn mynd at ddarpar gyflogwr neu y byddent yn mynd at eu cyflogwr presennol (y ddau yn 12 y cant).

Dywedodd bron un o bob pump o oedolion (17 y cant) nad ydynt yn gwybod ble i fynd.

Mae'r ffigyrau hyn yn debyg i weddill y Deyrnas Gyfunol (gweler Tabl 3). Ond, mae oedolion yng Nghymru yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael cyngor ar newid gyrfa na'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol (17 y cant). Amlyga hyn angen i godi ymwybyddiaeth o ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i oedolion.

**Tabl 3: Ble mae ymatebwyr yn mynd i gael cyngor ar newid gyrfa**

| Ffynhonnell gwybodaeth/cyngor | Cymru | Y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru) |
|---|---|---|
| Chwiliad cyffredinol ar-lein | 38% | 37% |
| Ffrindiau, teulu neu gydweithwyr | 20% | 24% |
| Darparwr addysg fel coleg neu brifysgol | 13% | 16% |
| Cyfryngau cymdeithasol | 14% | 16% |
| Ymgynghorydd/asiantaeth recriwtio | 15% | 16% |
| Sefydliad proffesiynol, sector neu grefft | 15% | 15% |
| Canolfan Byd Gwaith | 13% | 15% |
| Darpar gyflogwyr | 12% | 12% |
| Eich cyflogwr presennol (e.e. Adnoddau Dynol, rheolwyr llinell) | 12% | 11% |
| Cyngor ar Bopeth | 8% | 8% |
| Canolfan gymunedol, wirfoddol neu grefyddol leol | 3% | 5% |
| Elusen leol neu genedlaethol | 4% | 5% |
| Cynrychiolydd dysgu Undeb neu Eiriolwr Dysgu yn y Gweithle | 3% | 5% |
| Ddim yn gwybod | 17% | 11% |

Sail: ymatebwyr sy'n gyflogedig, di-waith ac yn chwilio am waith neu mewn addysg amser llawn yng Nghymru. Sail wedi ei bwysoli: = 242; sail heb ei bwysoli = 356. Sail ymatebwyr sy'n gyflogedig, di-waith ac yn chwilio am waith neu mewn addysg amser llawn yn y Deyrnas Gyfunol (ac eithrio Cymru). Sail wedi ei bwysoli = 5724, sail heb ei bwysoli = 6233.